



Evelyn Glennie ac Efengyl Goleuni

Be' oedd ar y teledu Noswyl Nadolig 1986? Ymhlith arlwy'r BBC y noson roedd *Christmas With Val Doonican*. A sut wn i hynny? Am fod y rhaglen wedi ei hail ddangos yr wythnos ddiwethaf. Roedd y Gwyddel Val Doonican yn 'enw' cyfarwydd ar y pryd, ac mae'n siwr gen i fod y rhaglen hon yn ddigon poblogaidd y Nadolig hwnnw. Ond oedd hi'n werth ei dangos bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach? Beth bynnag am hynny, roedd yn ddigon difyr. Roedd y gynulleidfa'n sicr werth ei gweld! Coler a thei i'r dynion, a ffrogiau gorau i'r merched! A phawb yn edrych flynyddoedd yn hŷn nag unrhyw gynulleidfa deledu a gewch chi heddiw.

A gwerth ei weld a'i glywed hefyd oedd datganiad seiloffon a marimba Albanes 20 mlwydd oed o'r enw Evelyn Glennie. Ers hynny, mae hi wedi cael gyrfa lwyddiannus iawn fel offerynnwr taro proffesiynol. Ond yr hyn sy'n annisgwyl am Evelyn Glennie yw bod ei chlyw wedi dechrau dirywio pan oedd hi'n wyth oed a'i bod yn hollol fyddar ers yn ddeuddeg oed. A'r peth rhyfeddol yw ei bod yn ymwrthod â'r syniad bod hyn yn anfantais iddi fel cerddor, gan fynnu yn hytrach bod ei byddardod wedi gwneud iddi allu gwerthfawrogi cerddoriaeth mewn ffyrdd eraill. Yn hytrach na 'chlywed' cerddoriaeth â'r glust, mae Evelyn Glennie yn 'clywed' â'r bysedd, â'r llygaid, â'r teimlad, â'r traed ac â'i holl gyneddfau. Yn ferch ifanc, bu'n frwydr fawr iddi gael lle mewn coleg cerdd gan nad oedd neb yn credu y gallai person byddar lwyddo ym myd cerdd. Ond fe'i derbyniwyd oherwydd ei dawn ryfeddol, ac yn sgil hynny fe agorwyd drysau colegau cerdd i bobl â phob math o anableddau eraill.

Ar Wyl y Nadolig, diolchwn am Efengyl Goleuni. Y Crist a aned ym Methlehem yw gwir oleuni'r byd. A phan feddyliwn am 'weld' y goleuni hwnnw, tybed na fedr Evelyn Glennie ddysgu rhywbeth pwysig i ni? Oherwydd onid newyddion da i'w werthfawrogi â'n holl gyneddfau yw'r Efengyl? Oni allwn glywed a theimlo'r goleuni hwn yn ogystal â'i weld? Nid rhywbeth i'w weld a'i ddeall yn oeraidd yw gwirionedd yr Efengyl. Oni allwn hefyd glywed ei sain beraidd? Ac oni allwn deimlo gwres y cariad a geir yn yr Arglwydd Iesu? Ac onid yw'r cariad hwnnw yn ein cyffroi i fod eisiau byw i garu a chlodfori'r Iesu?

Yn rhy aml, mae'r Efengyl yn cael ei chyfyngu gennym. Fe'i gwnawn yn rhywbeth i'r deall gan bwysleisio'r ffeithiau moel am fywyd a gwaith Iesu Grist. Ond gall gwybodaeth a deall fod yn oeraidd. Neu, fe wnawn ni'r Efengyl yn rhywbeth i'r galon a'r teimladau yn bennaf, heb roi gormod o bwys ar y gwirioneddau a ddatguddir yn Y Beibl am berson a gwaith y Gwaredwr. Ond pethau anwadal iawn yw teimladau sydd heb eu seilio ar ffeithiau pendant am yr Iesu. Neu, fe wnawn yr Efengyl yn fater o ymddygiad a gweithredoedd sy'n fwy o ddyletswydd nag o ymateb gwirfoddol i gariad aberthol Duw tuag atom yn ei Fab.

Dathlwn y Nadolig eleni gan glodfori Duw am Efengyl y medrwn ei gweld a'i chlywed a'i theimlo ac ymateb iddi mewn cariad ac ufudd-dod am fod Duw trwy ei Fab Iesu Grist wedi ein caru a'n gwaredu. Yn ei drugaredd, boed i Dduw ein galluogi i fwynhau'r Efengyl yn llawn â'r llygad a'r glust a'r galon a rhoi iddo Ef glod ein genau .



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 618 – Dydd Sul, 21 Rhagfyr, 2014

Nadolig Llawen A Blwyddyn Newydd Dda



Immanuel Duw gyda ni

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul cyn y Nadolig. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch a chynhelir oedfa Nadolig y Plant am 3.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Gobeithio bydd cymaint â phosibl o'r aelodau yn ymuno â ni ar gyfer yr oedfa hon.

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon, ac wrth estyn croeso cynnes iddo diolchwn am ei wasanaeth unwaith eto. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant, ac estynnwn groeso cynnes i bawb i'r oedfa hon.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Oedfa Bore Nadolig

Cymun Bore Nadolig
yr Ofalaeth
Dydd Iau, Rhagfyr 25
am 10.00 o'r gloch
yn Capel Coch

Naw Llith a Charol Deiniolen

Gwasanaeth Undebol
Naw Llith a Charol
Prawn Sul nesaf, Rhagfyr 28
am 3.00 o'r gloch
yn Eglwys Llandinorwig

Naw Llith a Charol

Diolch i bawb a ddaeth i'r Gwasanaeth Naw Llith a Charol Undebol yn Capel Coch nos Sul diwethaf. Roedd yn braf medru cyfuno'r Gwasanaeth hwnnw gyda'r oedfa MOLI fisol dan arweiniad Andrew a Gwenno a Dafydd. Cafwyd neges mewn tair rhan gan Andrew.

Darllenwyd y llithoedd gan aelodau'r eglwysi, a diolch i Gareth, Iolo, Aled a Dafydd am ddarllen rhannau Capel Coch.

Gwnaed casgliad o £153.16 at Gynllun Efe yn ystod yr oedfa, a diolch yn fawr am bob cyfraniad.

Noson Yr Hwylfan

Daeth dros 40 o ieuenctid i'r Hwylfan yng Nghaernarfon nos Iau wrth i griwiau Lanberis, Llanrug a Chaernarfon ddod at ei gilydd ar ddiwedd y tymor. Roedd digon o hwyl, a diolch yn fawr i Andrew am drefnu'r cyfan. Diolch hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth. Bydd cyfarfodydd arferol CIC yn ail ddechrau yn y flwyddyn newydd.

Parti Nadolig

Cynhelir Parti Nadolig Ysgol Sul Capel Coch nos Fawrth, Rhagfyr 23 am 5.30 o'r gloch. Mae Sion Corn wedi addo dod acw i'n gweld eleni eto.

Gofalaeth newydd

Daw newid mawr i gylch yr Ofalaeth ddechrau mis Ionawr gan y byddwn yn croesawu dwy eglwys arall atom.

Bydd eglwysi Annibynnol Bethlehem, Talybont a Charmel, Llanllechid yn dod atom, a byddaf yn pregethu yng nghapel Carmel am y tro cyntaf nos Sul gyntaf y flwyddyn newydd.

Yn amlwg, mae hyn yn newid sylweddol gan y bydd yr Ofalaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau daearyddol sydd wedi bod yn gyfarwydd i ni ers blynnyddoedd.

Er mwyn adlewyrchu'r newid hwn, byddwn yn galw'r Ofalaeth newydd, 'Gofalaeth Fro'r Llechen Las'. Dyna'r teitl a welwch, er enghraifft, ar dudalen flaen *Gronyn* o'r rhifyn nesaf ymlaen. Byddaf yn dal i gyhoeddi *Gronyn* bob Sul, ond o hyn allan bydd yn cynnwys newyddion am y ddwy eglwys newydd hefyd, ac felly bydd digwyddiadau ac enwau dieithr i'w gweld ynddo.

Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch yn cau

Dim Gronyn Sul nesaf

Ni fydd *Gronyn* yn cael ei gyhoeddi'r Sul nesaf, Rhagfyr 28. Dyna fu'r patrwm bob blwyddyn ar y Sul wedi'r Nadolig, ac fe gadwn at yr arfer eleni eto.

Cyhoeddir y rhifyn nesaf, felly, ddydd Sul, Ionawr 4, 2015.

ddydd Sul nesaf, Rhagfyr 28, 2014. Bydd pob cyfraniad a dderbynnir wedyn yn cael ei roi yng nghyfrifon 2015. Ac felly, gofynnwn i bob cyfraniad ar gyfer eleni gael ei wneud erbyn y Sul nesaf os gwelwch yn dda.

Cyfraniadau

Diolch am bob cyfraniad ariannol at waith yr eglwysi yn ystod y flwyddyn. Apeliwn ar aelodau eglwysi eraill yr Ofalaeth yn Neiniolen a Nant padarn a Rehoboth i helpu'r trysoryddion trwy ofalu bod gweddill eu cyfraniadau ar gyfer eleni y cael eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn neu os y bosibl erbyn Sul olaf y flwyddyn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Nadolig, Rhagfyr 25: Oedfa Gymun bore Nadolig i'r Ofalaeth yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 28: Oedfa Naw Llith a Charol yn Eglwys Llandinorwig am 3.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 4: Gwasanaethir gan y Gweinidog am 10.00 o'r gloch. Ni fydd oedfa am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Nos Fawrth, Rhag. 23: Parti Nadolig yr Ysgol Sul am 5.30 o'r gloch.

Dydd Nadolig, Rhagfyr 25: Oedfa Gymun bore Nadolig i'r Ofalaeth yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 28: Cynhelir un oedfa am 10.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Dydd Sul, Ionawr 4: 10.00 o'r gloch: Mr Dafydd Iwan. 5.00 o'r gloch: Mr Richard Lloyd Jones.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 28: Dim oedfa.

Dydd Sul, Ionawr 4: Dim oedfa.